

Rhaglen Grantiau Cyfleoedd Chwarae Digonol Wrecsam 2019

Canllawiau ar gyfer Ymgeisio

Pwrpas y rhaglen grantiau

Sefydlwyd y rhaglen grantiau tymor byr hon gan fod Llywodraeth Cymru, yn ddiweddar, wedi rhoi cyllid ar gael i gefnogi cyfleoedd chwarae i blant a Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol Cymru, yn benodol. Felly, pwrpas y rhaglen grantiau yw gwella cyfleoedd i blant (gan gynnwys plant yn eu harddegau) gael chwarae, gyda'r nod o helpu i sicrhau bod cyfleoedd chwarae digonol ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Cefndir y rhaglen grantiau

Yn 2012, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i lunio deddfwriaeth ynglŷn â cyfleoedd chwarae i blant pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol gwblhau asesiad o gyfleoedd chwarae i blant pob tair blynedd ac yna gweithio tuag at ddiogelu cyfleoedd chwarae digonol yn eu hardaloedd, cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol, o fewn rheswm.

Cyflwynwyd y ddyletswydd hon yn gyntaf ar sail 'niwtral o ran cost', a olygai nad oedd unrhyw adnoddau ariannol ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol i'w rhoi ar waith. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2018, neilltuodd Llywodraeth Cymru rywfaint o gyllid tymor byr i gefnogi'r gwaith hwn, ac mae'n rhaid ei wario erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018/19 (31 Mawrth 2019).

Beth ydym yn ei olygu o ran 'chwarae'?

Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio chwarae fel 'ymddygiad a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid', neu, mewn geiriau eraill, pethau mae plant yn eu gwneud am eu rhesymau nhw eu hunain pan fo ganddynt amser a lle heb rwymedigaethau oedolion. Felly, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau sy'n rhoi rhyddid i blant gael cyfleoedd i chwarae.

Pwy all wneud cais?

Mae'r rhaglen grantiau'n agored i unrhyw sefydliadau neu grwpiau sy'n gweithio gyda phlant neu'n gweithio i'w cefnogi a chefnogi eu cyfleoedd i chwarae yn Wrecsam.

Faint allwch chi wneud cais amdano?

Gallwch ymgeisio am hyd at £1,000, ond, gan ddibynnu ar y galw am gyllid a chynaliadwyedd y ceisiadau a dderbynnir, fe all Tîm Datblygu Chwarae CBSW benderfynu dyrannu mwy neu lai i brosiectau na'r swm y gofynnwyd amdano'n wreiddiol, lle bo hynny'n briodol.

Pryd allwch chi wneud cais?



Oherwydd y cyfnod byr a'r pwysau sydd i wario'r arian hwn. Y dyddiad cau terfynol ar gyfer derbyn ceisiadau fydd dydd 22.2.19. Ni fydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn gymwys i dderbyn cyllid.

Pryd mae angen gwario'r arian?

Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fodloni amcanion yr arian grant a bydd Tîm Datblygu Chwarae CBSW yn monitro hyn. Bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r gwariant wrth fodloni'r amcanion hynny. Gallai methu â darparu tystiolaeth o'r gwariant neu fethu â bodloni'r amcanion erbyn y dyddiad cau dynodedig olygu y bydd yn rhaid talu'r arian grant yn ei ôl.

Dros bwy y gallwch chi ymgeisio?

Mae'n rhaid i geisiadau egluro sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu tuag at un neu fwy o'r 12 blaenoriaeth a nodwyd yn Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Wrexham 2016 (mae eglurhad mwy manwl o'r blaenoriaethau ar dudalennau 17 i 21 yn yr adroddiad llawn, sydd ar gael yma: http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/play/play_sufficiency_2016_w.pdf):

- Blaenoriaeth 1: Cynyddu amser chwarae â gwrthrychau yn ystod y tymor
- Blaenoriaeth 2: Gwella cyfleoedd i chwarae yn y gaeaf
- Blaenoriaeth 3: Sicrhau strydoedd mwy diogel i chwarae arnynt
- Blaenoriaeth 4: Sicrhau ystod ehangach o leoedd i chwarae
- Blaenoriaeth 5: Sicrhau mannau chwarae yn agos at gartrefi plant
- Blaenoriaeth 6: Sicrhau a chynnal darpariaeth chwarae o safon
- Blaenoriaeth 7: Sicrhau ystod ehangach o ddarpariaeth ar gyfer rhai yn eu harddegau
- Blaenoriaeth 8: Gwella profiad goddrychol plant o amser a lle mewn darpariaeth dan oruchwyliaeth
- Blaenoriaeth 9: Galluogi rheini i ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi chwarae plant
- Blaenoriaeth 10: Gwella cefnogaeth ar gyfer plant anabl a phlant ar y cyrion
- Blaenoriaeth 11: Gwella agweddau negyddol cyffredinol tuag at rai yn eu harddegau a'u chwarae
- Blaenoriaeth 12: Sicrhau y gall plant fynd i chwarae gyda'u ffrindiau yn ddiraffferth

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth o ran cyllid i brosiectau sydd yn dangos dull arloesol i wella amodau i chwarae, yn arbennig y rheiny sydd wedi'i hanelu i annog gwell hyblygrwydd a chaniatâd i blant chwarae allan yn eu cymunedau lleol. Gall prosiectau llwyddiannus gynnwys arbrofion chwarae, tirlunio syml, gwelliannau i arwyddion, gostegu traffig, digwyddiadau cymunedol neu hyfforddiant. Os ydych yn ansicr o beth i wneud cais amdano, cysylltwch ag aelod o staff y Tîm Datblygu Chwarae i drafod syniadau.

Ystyriaethau pellach ar gyfer ceisiadau

Mae'r ffurflen gais wedi'i chynllunio i fod mor syml â phosib' gan sicrhau bod gan y Tîm Datblygu Chwarae yr holl wybodaeth y mae ei hangen i benderfynu ar bob prosiect. Yn ychwanegol at y wybodaeth uchod, mae'n rhaid i ffurflenni cais egluro:

- **Beth fydd y prosiect yn ei wneud mewn gwirionedd** – ar gyfer beth y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio.
- **Pwy fydd yn elwa** – gan gynnwys yr ystod oedran targed (os oes un).
- **Pryd fydd y prosiect yn digwydd** – yr amserlen a phryd y bydd wedi'i gwblhau.
- **Ble fydd y prosiect yn digwydd** – y gymuned darged (os oes un).
- **Sut mae plant wedi bod, neu sut y byddant, yn rhan o ddatblygiad y prosiect** – dylai pob prosiect gynnwys plant wrth gynllunio, cyflawni a gwerthuso'r ddarpariaeth a dylai'r ceisiadau nodi sut mae'r prosiect yn bwriadu gwneud hyn.
- **Sut y byddwch yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r prosiect yn y gymuned leol** – dylai pob prosiect llwyddiannus gael ei ddathlu'n lleol a dylai ceisiadau nodi sut y bydd y prosiect yn cael cyhoeddusrwydd.

Cyflwyno eich ffurflen gais

Anfonwch fersiwn electronig o'ch ffurflen gais gyflawn at play@wrexham.gov.uk, a chopi papur wedi'i lofnodi at: Tîm Datblygu Chwarae CBSW, Canolfan Ragoriaeth Rhiwabon, Llwyn Stanley, Rhiwabon, Wreccsam LL14 6AH.

Telerau ac amodau'r cyllid

Os yw eich cais yn llwyddiannus, yna bydd gofyn ichi gytuno i Delerau ac Amodau Grant Cyfleoedd Chwarae Digonol Wreccsam. Mae copi ohonynt wedi'u hatodi ar ddiwedd y canllawiau hyn.

Rhagor o wybodaeth

Os oes arnoch angen unrhyw wybodaeth neu gymorth ychwanegol mewn perthynas â'ch cais, yna cysylltwch â'r Tîm Datblygu Chwarae ar 01978 298361 neu e-bostiwch play@wrexham.gov.uk

